


Polisi Dysgu ac Addysgu

Ysgol Brynrefail



Datganiad cenhadaeth :

Darparu addysg o'r radd flaenaf i holl ddisgyblion Ysgol Brynrefail trwy'r profiadau a'r safonau gorau o addysgu a dysgu

Ein nod yw:

- Sicrhau bod profiadau dysgu yn y dosbarth yn ennyn mwynhad ac yn annog chwilfrydedd disgyblion yn y byd
- Sefydlu awyrgylch gwaith cadarnhaol a diogel yn y dosbarth er mwyn i ddysgwyr allu ffynnu a llwyddo
- Annog ethos yn y dosbarth lle mae dysgwyr yn rhydd i ddysgu o gamgymeriadau gan wybod bod hynny yn rhan annatod o'r broses ddysgu
- Hyrwyddo hunan-werth, dygnwch a hunan-ddisgyblaeth dysgwyr
- Darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu er mwyn cwrdd gyda gwahanol anghenion ein holl ddysgwyr
- Sicrhau bod y profiadau a gynigiwn yn darparu dysgwyr i ennill cymwysterau pwnc penodol gan ddatblygu sgiliau a medrau bywyd gydol oes yn ogystal
- Gosod disgwyliadau uchel ond realsitig o'n holl ddysgwyr a'u cefnogi i wireddu eu gwir botensial

Addysgu a Dysgu – y model

Defnyddia'r ysgol fodel "TEEP" sy'n darparu fframwaith ag iddo sylfaen pedagogiaidd cadarn i gefnogi ymagwedd gyson tuag at addysgu a dysgu.

Deillia'r model o ymchwil arwyddocaol sy'n adnabod yr hyn sy'n angenrheidiol i bob athro a dysgwr ei wneud, er mwyn sicrhau'r deilliannau dysgu gorau posib.

Rhennir y cynllun i 3 elfen, gyda phob un ag iddi elfennau unigryw sydd yn rhan annatod i'r elfennau eraill, ond sydd angen eu cydnabod yn unigol am eu cyfraniad i'r broses addysgu a dysgu.

Mae'r ymagwedd yma'n ein galluogi i :

- ddatblygu dealltwriaeth ac ieithwedd gyffredin ar gyfer addysgu a dysgu,
- gynyddu cyd-weithio traws-gwricwlaidd a rhannu arferion da,
- helpu dysgwyr i gymryd mwy o ran yn trafod, dadlau a gwrandao sy'n gysylltiedig â dysgu,
- helpu dysgwr i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach wrth i wybodaeth fod yn gadarnach

Dylai gwersi gael eu selio ar :

Ymddygiadau Athro Effeithiol

Bydd athrawon fwyaf effeithiol wrth gyflwyno gwersi o safon uchel pan fyddant yn hyrwyddo dysgu rhyngweithiol dosbarth-cyfan, yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau addysgu a dysgu, ac yn creu hinsawdd dosbarth positif sy'n cynnwys rheolaeth ddosbarth glir.

Ymddygiadau Dysgwr Effeithiol

Bydd athrawon yn annog dysgwyr i adeiladu ystyr yn eu dysgu, i fonitro eu cynnydd personol, ac i fyfyrion rheolaidd.

Dylai gwersi gynnwys 5 elfen sylfaenol :

MEDDWL AR GYFER DYSGU

Er mwyn hyrwyddo'r deall, dylai athrawon annog dysgwyr i feddwl er mwyn gwneud synnwyr o'r wybodaeth wrth law. Bydd pob dysgwr yn cael cefnogaeth wrth iddynt ddatblygu meddwl dyfnach er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth a chyfoethogi eu dysgu.

DYSGU CARLAM

Dylai athrawon ddefnyddio technegau a strategaethau er mwyn sicrhau ymlyniad dysgwyr yn y broses ddysgu. Dylid hyrwyddo'r dealltwriaeth o sut rydym yn dysgu cymaint â beth rydym yn ei ddysgu.

DYSGU CYDWEITHREDOL

Dylai athrawon annog dysgu cydweithredol sy'n cynnwys grwpiau o ddysgwyr yn gweithio a dysgu gyda'i gilydd er mwyn cwblhau tasgau a datrys problemau.

ASESU AR GYFER DYSGU

Mae asesu yn arf pwysig yn y broses ddysgu. Dylai unrhyw asesu arwain at gynnydd yn y deilliannau dysgu i ddysgwyr. Mewn gwersi, dylid archwilio strategaethau a thechnegau sy'n cefnogir athro a'r dysgwyr i roi a derbyn adborth o safon.

DEFNYDD EFFEITHIOL O TGCH

Dylai athrawon chwilio am gyfleoedd cyson i ddefnyddio TGCh i adlewyrchu esiamplau'r byd go iawn fydd yn cyfoethogi dysgu'r dysgwyr.

Dylai'r cylch dysgu gael ei ddefnyddio gan athrawon i gynllunio gwersi perthnasol, pwrpasol ac ysgogol. Y mae 6 elfen sylfaenol yn y cylch y dylid eu gweld mewn un wers neu gyfres o wersi.

PARATOI AR GYFER DYSGU

Bydd athrawon yn gweithio'n strategol gyda dysgwyr er mwyn creu hinsawdd sy'n ffafriol i ddysgu. Dylai gynnwys ystyriaeth o'r 3 phrif faes isod :

- yr amgylchedd ffisegol
- yr amgylchedd cymdeithasol ac emosiynol
- yr amgylchedd deallusol

CYTUNO AR DDEILLIANNAU DYSGU

Dylai athrawon rannu'n benodol bwrpas y wers gyda'r dysgyr er mwyn sicrhau fod y dysgwyr yn llawn ddeall yr hyn a ddisgwylir ohonynt yn ystod y wers. Bydd yr athro yn :

- gwneud y cynnwys, y sgiliau a'r meddwl yn benodol
- nodi'n glir yr hyn mae'r dysgwyr wedi'i ddysgu erbyn diwedd y wers
- rhannu'r MPLI y bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu yn ei erbyn.

CYFLWYNO GWYBODAETH NEWYDD

Dylai athrawon ystyried y ffordd orau o gyflwyno gybodaeth newydd i ddysgwyr, er mwyn sicrhau'r cynhwysiant uchaf i bawb.

ADEILADU DEALLTWRIAETH

Dylid rhoi amser a chyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o wybodaeth newydd ac i ymarfer defnyddio'u sgiliau datblygol. Dylai athrawon annog dysgwyr i archwilio cysyniadau newydd.

GWEITHREDU ER MWYN ARDDANGOS

Dylid rhoi tasgau i ddysgwyr sy'n caniatáu iddynt arddangos eu dealltwriaeth gynyddol o'r cynnwys.

ADOLYGU

Dylai athrawon herio dysgwyr i wneud eu dysgu'n benodo/amlwg trwy'r adolygu. Dylent ddefnyddio a chynnwys cyfleoedd adolygu trwy gydol y cylch dysgu. Bydd hyn yn galluogi athrawon a dysgwyr i adnabod sialensau, cefnogaeth, cryfderau a gwendidau

Canllaw Cyflym ar gyfer Gwersi Gwych!

1. Rhowch eich hun yn lle'r dysgwr : ble'n union mae'r dysgwr arni (yn academaidd, o ran cymhelliant)? Beth yw eu dysgu blaenorol, eu dealltwriaeth a'u hagwedd?

2. Y Darlun Mawr : sut mae'r wers hon yn ffitio i'r darlun ehangach; pam mae hyn yn bwysig? Rhennwch y nod ac adolygwch yn rheolaidd.

	Y dysgwr	Yr athro
1	<p>Sut alla i baratoi ar gyfer dysgu? <i>Rwy'n dod i'r wers yn drefnus ar gyfer dysgu.</i> <i>Rwy'n hyderus i ryngweithio.</i> <i>Rwy'n barod i fentro a chymryd risg.</i> <i>Rwy'n barod i gymryd rhan.</i> <i>Rwy'n paratoi'n feddylol.</i></p>	<p>Beth fydda i'n ei wneud i alluogi'r dysgwyr i ddysgu? <i>Rwy'n gwybod y pwnc ry'n ei addysgu yn drwyadl.</i> <i>Rydw i wedi cynllunio gwers heriol, wahaniaethol a phriodol.</i> <i>Rwy'n adnabod fy nosbarth a'u hanghendion.</i> <i>Rwy'n cynllunio amrywiaeth o dasgau diddorol trwy gylch o ddysgu.</i> <i>Rwy'n gwneud defnydd effeithiol o staff cefnogi.</i> <i>Rwyf wedi paratoi'r amgylchedd dysgu.</i> <i>Mae gen i ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion.</i> <i>Rwy'n gwybod ble gallaf ofyn am arweiniad a chefnogaeth os oes angen.</i></p>
2	<p>Beth fydda i'n ddysgu heddiw? <i>Rwy'n gwybod beth sy'n rhaid i mi ei gyflawni a pham.</i> <i>Rwy'n gwrando'n astud ar y broses sy'n cael ei hegluro.</i> <i>Rwy'n teimlo'n barod am y daith.</i></p>	<p>Sut fyddai'n rhannu'r hyn sydd angen ei ddysgu gyda'r dysgwyr? <i>Byddaf yn cynllunio llwybr y gall dysgwyr ei ddilyn gan gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.</i> <i>Rwy'n delio ag unrhyw broblemau gydag adnoddau neu offer.</i> <i>Rwy'n asesu ble mae'r dysgyr arni, ac yn addasu'r deilliannau dysgu yn sgil hyn.</i> <i>Rwy'n galluogi dysgwyr i weld perthnasedd yr hyn a ddysgir, tra hefyd yn trosglwyddo a datblygu sgiliau newydd.</i></p>
3	<p>Beth fydd yr athro yn ei wneud i'm helpu i ddysgu? <i>Fy nghyfeirio at grŵp gweithio.</i> <i>Gofyn cwestiynau heriol.</i> <i>Caniatau i mi ddarganfod pethau ar fy liwt fy hun.</i> <i>Cynnig cefnogaeth i mi.</i> <i>Rhoi amser meddwl i mi.</i> <i>Rhoi arfau i mi wiro fy ngwaith fy hun a gwaith eraill.</i></p>	<p>Sut fydda i'n galluogi'r dysgwyr i ddysgu? <i>Darparu dulliau arolesol o gyflwyno gwybodaeth newydd.</i> <i>Rhoi'r sgaffaldiau i archwilio gwybodaeth newydd ar y cyd, a chwilio am ffyrdd perthnasol o gymhwyso.</i> <i>Cyflwyno geirfa allweddol a chefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd, rhif a TGCh.</i> <i>Galluogi dysgyr i deimlo'n ddigon diogel i gymryd risg a gwneud camgymeriadau.</i> <i>Rydw i'n ddigon hyderus i gymryd risg a darparu profiadau dysgu amrywiol.</i></p>
4	<p>Sut fyddai'n gwybod mod i yn gwneud cynnydd da? <i>Mae'r athro'd dweud wrtha i – naill ai ar lafar, neu yn ysgrifenedig.</i> <i>Rydw i'n gwybod lle'r ydw i arni, a'r hyn sydd ei angen er mwyn gwella.</i> <i>Rwy'n gwybod sut i wella a chymryd y cam nesaf.</i> <i>Rydw i wedi ymateb i gyngor er mwyn peidio gwneud yr un camgymeriadau.</i> <i>Rwy'n cael cyfle i fesur fy nghynnydd fy hun ac eraill yn erbyn y nodau.</i> <i>Rwy'n gallu arddangos cynnydd gerbron eraill.</i> <i>Rwy'n gallu adolygu a rhannu'r hyn a ddysgais yn flaenorol.</i> <i>Rwy'n hyderus ynghylch y cam nesaf.</i> <i>Rwy'n archwilio ffyrdd o ehangu fy nysgu i i'r lefel nesaf.</i></p>	<p>Sut ydw i'n gwybod fod y dysgwyr yn gwneud cynnydd da? <i>Rwy'n sicrhau mod i'n asesu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn y deilliannau trwy gydol y cylch dysgu.</i> <i>Rwy'n creu amrywiaeth o gyfleoedd i asesu dysgu'r dysgwyr, yn cynnwys gwaith cartref.</i> <i>Rwy'n arfogi dysgwyr gyda'r eirfa a'r hyder i fyfyrion ar eu dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd.</i> <i>Rwy'n parhau i ddefnyddio tracio rheolaidd i fonitro cynnydd yn erbyn targedau.</i></p>

Cymorth Cyflym – Ymddygiad Gwych ar gyfer Dysgu

1. Dechrau tawel, trefnus i'r wers (gallai hyn gynnwys gofyn i'r dysgwyr ffurfio rhes y tu allan i'r dosbarth, yn cael eu gwahodd i'r dosbarth trwy ganiatod yr athro)
2. Yr athro'n cyfarch y dysgwyr wrth y drws.
3. Cynlluniau eistedd ar gyfer pob grŵp dysgu wedi'u trefnu gan yr athro.
4. Trefn (yr athro a'r dysgwr).
5. Sefydlu arferion ar gyfer dechrau, diwedd a gweithgareddau yn ystod y gwersi.
6. Ymlyniad pob dysgwr mewn gweithgareddau, ac wrth siarad am eu gwaith; dweud pan maent wedi gorffen er mwyn gallu symud ymlaen.
7. Arwyddion cydnabyddedig i nodi newid mewn gweithgaredd.
8. Amseriad a chyflymder addas.
9. Rhyngweithio athro-dysgwr a dysgwr-i-ddysgwr.
10. Pan fo'n bosib, dysgwyr i aros yn eu sedd.
11. Athrawon yn defnyddio geirfa o enwi ymddygiadau.
12. Tynnu sylw at disgyblion yn ymddwyn yn dda (dull Andy Vass).
13. Sicrhau dilyniant a chysondeb.
14. Parch – athro i ddysgwr, dysgwr i athro a dysgwr i ddysgwr.
15. Systemau clir mewn lle ar gyfer dysgwyr.
16. Athro'n symud o amgylch yr ystafell.
17. Defnyddio arwyddion di-eiriau, e.e. sylly, bys ar y geg ayb.
18. Bod un cam ar y blaen yn y wers.
19. Cynllunio amser meddwl/oedi mewn gwrs (athro a dysgwr).
20. Dysgwyr â balchder yn eu gwaith – dim graffiti a dwldo yn/ar eu llyfrau.

Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn Rhestr Wirio Effaith Llwyth gwaith.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:



(Mr Dafydd M Roberts)

Dyddiad cymeradwyo: 08/05/2017 (gan y corff llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: Haf 2021